Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Mynediad Agored
# 2023 - 2026

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English**

CYNNWYS


1. Cyflwyniad .... 3

2. Diben .... 3

3. Cwmpas .... 4

4. Polisi .... 5

5. Monitro .... 9

6. Arweiniad a Chymorth .... 9

7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill .... 10

## 1. Cyflwyniad

Mae Mynediad Agored yn ffordd o feddwl a gweithredu sy'n blaenoriaethu trefnu bod gwaith ymchwil a chynnyrch ysgolheigaidd yn agored i'r cyhoedd. Mewn diwylliant Mynediad Agored, mae ymchwilwyr, sefydliadau, cyllidwyr a chyhoeddwyr yn cydweithio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu mor eang ag y bo modd. Yn 2002 nododd Menter Mynediad Agored Budapest ddechrau'r mudiad hwn, ac ers hynny mae nifer o ddatganiadau a dogfennau polisi Mynediad Agored cenedlaethol a rhyngwladol wedi dilyn.

Mae Mynediad Agored yn seiliedig ar y gred y dylai gwaith ymchwil fod ar gael i bawb, nid yn unig i'r rhai sy'n gallu fforddio talu am fynediad. Golyga hyn y dylid trefnu bod erthyglau ymchwil, data a chynnyrch ysgolheigaidd arall ar gael ar-lein, yn rhad ac am ddim, a heb gyfyngiadau ar eu hailddefnyddio.

Mae Mynediad Agored yn annog cydweithredu, tryloywder ac arloesi. Drwy rannu cynnyrch ymchwil yn agored, gall ymchwilwyr gydweithio'n haws â'i gilydd ac adeiladu ar waith ei gilydd. Mae Mynediad Agored hefyd yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd, gan ei bod yn haws i'r cyhoedd weld canfyddiadau ymchwil, a gallan nhw graffu ar y canfyddiadau hyn ac adeiladu arnyn nhw.

Mewn amgylchedd Mynediad Agored, mae sefydliadau a chyllidwyr yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi mentrau a pholisïau Mynediad Agored. Gallan nhw ddarparu cyllid at ffioedd cyhoeddi Mynediad Agored, sefydlu cadwrfeydd sefydliadol, a gosod amod cyllido sef ei bod yn orfodol i ymchwilwyr drefnu bod eu gwaith yn agored i bawb.

Mae gan gyhoeddwyr hefyd rôl i'w chwarae wrth feithrin diwylliant Mynediad Agored. Gallan nhw gynnig opsiynau cyhoeddi Mynediad Agored, mabwysiadu polisïau Mynediad Agored, ac archwilio modelau busnes arloesol sy'n cefnogi Mynediad Agored.

Er 2016, mae Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) y DU wedi mynnu bod pob erthygl gyfnodolyn a thrafodion cynhadledd a gyflwynir i'w hasesu yn cael eu cyhoeddi ar sail Mynediad Agored ymhen tri mis ar ôl iddyn nhw gael eu derbyn.  Darpara'r REF incwm sylweddol i ategu amgylchedd ymchwil y Brifysgol ac felly mae'n hollbwysig cydymffurfio â'r polisi hwn.

At ei gilydd, mae diwylliant Mynediad Agored yn ceisio symud y rhwystrau rhag lledaenu gwaith ymchwil a chynnyrch ysgolheigaidd, hyrwyddo cydweithredu ac arloesi, a chynyddu effaith a pherthnasedd ymchwil i'r gymdeithas yn gyfan gwbl.

## 2. Diben

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydnabod bod cyhoeddiadau ymchwil yn ased gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio i gyfleu canfyddiadau ymchwil a bod yn sail ar gyfer

ymchwil newydd ac arloesol. Gan ein bod yn derbyn arian cyhoeddus, rydym yn cydnabod ein rhwymedigaeth i drefnu bod ein gwaith ymchwil ar gael i gylch mor eang ag y bo modd.

Mae'r Drindod Dewi Sant am sicrhau bod ei hymchwil yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae cyhoeddi Mynediad Agored yn golygu bod gwerth cynhenid cynnwys ysgolheigaidd wedi'i chwyddo drwy hwylustod eraill wrth fanteisio ar y wybodaeth hon a bydd hyn yn arwain at fanteision i'r gymdeithas gyfan. Daw cynnydd yn sgil rhannu.

Ystyria'r Drindod Dewi Sant fod Mynediad Agored, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau ymchwil a chynnyrch eraill mewn modd cyfrifol a moesegol, yn rhan annatod o arfer ymchwil da. Mae'n galluogi trosi gwybodaeth ac arloesi ac yn lleihau rhwystrau i ymholiad academaidd ledled y byd.

Rydym wedi ymrwymo i Fynediad Agored ac yn ei gefnogi yn achos ein cyhoeddiadau ymchwil er lles ymchwilwyr a'r gymdeithas ehangach.

Mae safbwynt Y Drindod Dewi Sant ar Fynediad Agored yn gyson â pholisïau Mynediad Agored y prif gyllidwyr megis Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), Ymddiriedolaeth Wellcome, Sefydliad Bill a Melinda Gates a Cancer Research UK. Mae'r Polisi Mynediad Agored hwn yn amlinellu set o ddisgwyliadau o ran y modd y dylid rheoli a lledaenu cyhoeddiadau a chynnyrch ymchwil a gynhyrchir gan Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Polisi Mynediad Agored yn rhan o Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol ac mae'n ceisio sicrhau bod cyhoeddiadau a chynnyrch ymchwil yn cael eu rheoli a'u rhannu mewn modd cyfrifol sy'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau ac ymrwymiadau perthnasol.

Does dim yn y polisi hwn wedi'i fwriadu i gyfyngu ar ryddid academaidd o ran cyhoeddi ymchwil. Fodd bynnag, disgwylir diwydrwydd dyladwy o ran gofynion Mynediad Agored cyllidwyr a chydymffurfiaeth â Pholisi Mynediad Agored UKRI ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf.

Cyhoeddir polisi Mynediad Agored REF2028 yn 2023/24. Diweddarir y polisi hwn i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Dylai awduron gyfeirio bob tro at unrhyw bolisi Mynediad Agored a nodir gan gyllidwr i ddechrau.

## 3. Cwmpas

Mae'r Drindod Dewi Sant yn diffinio'r set ganlynol o egwyddorion i'w dilyn gan ymchwilwyr er mwyn sicrhau y rheolir cyhoeddiadau ymchwil a'u lledaenu yn unol ag arfer ymchwil da.

Rhaid rheoli a lledaenu cyhoeddiadau ymchwil yn unol â gofynion cytundebol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a moesegol a gofynion perthnasol eraill. Mae ymchwilwyr yn gyfrifol am ymgyfarwyddo â'r gofynion a bennwyd gan Y Drindod Dewi Sant, cyllidwyr allanol,

a chyrff perthnasol eraill sy'n berthnasol i'w hymchwil ac am fabwysiadu arferion sy'n cyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

Dan amgylchiadau lle mae gofynion yn gwrthdaro neu lle mae gennych effaith andwyol bosibl, dylid ceisio cyngor gan y tîm Casgliadau yn y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu i ddechrau, gan gyfeirio at y Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi, Ymchwil a Menter (INSPIRE) neu swyddfeydd eraill fel y bo'n briodol.

## 4. Polisi

Mae'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu (LlAD) yn cefnogi ac yn gyrru'r tirlun Mynediad Agored oddi mewn i'r Drindod Dewi Sant mewn nifer o ffyrdd:

- Y gadwrfa ymchwil sefydliadol: Mae'r LlAD yn rheoli'r gadwrfa sefydliadol, sef y casgliad digidol o gynnyrch ysgolheigaidd a gynhyrchwyd gan ymchwilwyr sy'n gysylltiedig â'r sefydliad. Mae cadwrfeydd sefydliadol yn darparu llwyfan i ymchwilwyr adneuo eu gwaith a'i wneud yn agored i bawb, yn ogystal ag olrhain metrigau defnydd ac effaith.
- Cyhoeddi Mynediad Agored: Mae'r LlAD yn cefnogi Mynediad Agored drwy gyfrannu i drafodaethau cenedlaethol ar gyfer cytundebau cyhoeddi Mynediad Agored trawsffurfiol â chyhoeddwyr, a thrwy danysgrifio i fodelau Mynediad Agored newydd megis Open Book Publishers.
- Eiriolaeth ac addysg: Mae'r LlAD yn eiriol o blaid Mynediad Agored ac yn codi ymwybyddiaeth am fanteision Mynediad Agored drwy weithdai, sesiynau hyfforddi, ac ymdrechion allgymorth.
- Cymorth hawlfraint a thrwyddedu: Mae'r LlAD yn darparu arweiniad ar faterion hawlfraint a thrwyddedu ynghylch cyhoeddi Mynediad Agored, megis sut i ddefnyddio trwyddedau Creative Commons gyda chynnyrch ysgolheigaidd.
- Cymorth data agored: Gall LlAD hefyd gefnogi mentrau data agored drwy ddarparu arweiniad ar reoli data, rhannu data, ac opsiynau o ran cadwrfa ddata.
- Adnoddau Mynediad Agored: Mae'r LlAD yn darparu mynediad at adnoddau Mynediad Agored megis cyfnodolion Mynediad Agored, gwerslyfrau agored, ac adnoddau addysgol agored, sy'n helpu i leihau rhwystrau i fynediad i ddysgwyr ac ymchwilwyr.

### 4.1 ORCID

Mae rhif adnabod ORCID yn ddynodydd ymchwilydd unigryw y gellir ei ychwanegu at gynnyrch ymchwil i sicrhau y caiff gwaith ei wahaniaethu'n hawdd oddi wrth gwaith

ymchwilwyr eraill. Mae ORCID yn troi'n safon ryngwladol ac mae dros 1.5 miliwn o rifau adnabod wedi eu cofrestru gan ymchwilwyr, a bellach fe'i defnyddir gan nifer cynyddol o gyhoeddwyr, cyllidwyr a phrifysgolion.

Rheolir proffil ORCID gan yr ymchwilydd unigol a gellir ei gysylltu ag ystod o wybodaeth megis cyhoeddiadau, grantiau, addysg a hanes cyflogaeth.

Mae'r Drindod Dewi Sant yn cynghori pob ymchwilydd i gofrestru am rif adnabod ORCID. Bydd Cadwrfa Ymchwil y Brifysgol yn bwydo ymchwil sydd newydd ei gyhoeddi drwodd i broffil ORCID ymchwilydd yn awtomatig.

## 4.2 Cytundebau Darllen a Chyhoeddi

Nod y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yw tanysgrifio i gytundebau darllen a chyhoeddi cenedlaethol â chyhoeddwyr pan fyddan nhw ar gael ac yn fforddiadwy. Mae'r cytundebau hyn yn symud costau o danysgrifiadau talu i ddarllen traddodiadol tuag at daliadau Mynediad Agored, gan sicrhau bod ymchwil newydd ar gael i bawb i'w ddarllen pan gaiff ei gyhoeddi. Pan fydd ar gael, cyhoeddi drwy gytundeb darllen a chyhoeddi yw'r dewis lwybr at gydymffurfiaeth Mynediad Agored.

Bydd y Brifysgol yn blaenoriaethu cytundebau lle na osodir cap ar nifer yr erthyglau a gyhoeddir gan ymchwilwyr y Brifysgol yn ystod cyfnod y cytundeb. Pan na ellir osgoi hyn, a bod cyhoeddi Mynediad Agored yn debygol o arwain at ragor o gostau, rhoddir blaenoriaeth ar gyfer cyhoeddi Mynediad Agored i ymchwil sy'n seiliedig ar Strategaeth Ymchwil ac Arloesi y Brifysgol a'i chyflwyniad i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF).

Fel arfer mae'r dilysrwydd ar gyfer cyhoeddi Mynediad Agored drwy gytundebau trawsffurfiol yn seiliedig ar sefydliad yr awdur gohebol. Pe bai ymchwilydd o'r Drindod Dewi Sant yn cyd-awdura cyhoeddiad ag awdur gohebol sy'n gweithio mewn SAU arall, sefydliad cartref yr awdur gohebol fydd yn gyfrifol am gyhoeddi drwy gytundeb trawsffurfiol. Yn y sefyllfa hon, dylai'r cydawdur o'r Drindod Dewi Sant adneuo copi o'r metadata a dolen i'r erthygl Fynediad Agored yng Nghadwrfa Ymchwil Y Drindod Dewi Sant.

Mae rhai cyhoeddwyr yn cynnwys cyfnodolion hybrid yn unig mewn cytundebau cyhoeddi Mynediad Agored ac yn codi Taliadau Prosesu Erthyglau (APCs) ar wahân am gyhoeddi mewn cyfnodolion Mynediad Agored llawn (mynediad agored aur)[1]. Gall y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu roi gwybod a yw costau Mynediad Agored am gyfnodolyn penodol yn cael eu talu dan gytundebau presennol, ond ni all ariannu Taliadau Prosesu Erthyglau mewn cyfnodolion aur pur ar wahân a'r awdur sy'n gyfrifol am sicrhau taliad.

Gellir cael rhagor o wybodaeth, cyngor a chymorth ar gytundebau darllen a chyhoeddi ar wefan Sherpa a thudalennau gwefan y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu.

[1] An introduction to open access | Jisc

### 4.3 Y Gadwrfa Ymchwil: Cyflwyniadau

Amcan Cadwrfa Ymchwil Fynediad Agored y Brifysgol yw bod yn borth at ymchwil y Brifysgol a darparu llwybr at gydymffurfio â'r REF a chyllidwyr ymchwil o ran Mynediad Agored. Dylid adneuo pob cyhoeddiad ymchwil yn y Gadwrfa cyn gynted ag y daw derbyniad y cyhoeddwr i law. Cyfrifoldeb yr awdur yw adneuo'r gwaith ymchwil.

Pan gyhoeddir cynnyrch ymchwil mewn ffynhonnell Fynediad Agored (Mynediad Agored aur), dylid ychwanegu manylion y gwaith at y gadwrfa gyda dolen at y fersiwn a gofnodwyd (version of record).

Pan gyhoeddir cynnyrch ymchwil mewn ffynhonnell draddodiadol â wal dalu, dylid adneuo'r Llawysgrif Awdur a Dderbyniwyd (AAM) pan gaiff ei derbyn (Mynediad Agored gwyrdd). Bydd LlAD yn defnyddio embargo sy'n seiliedig ar bolisi'r cyhoeddwr pan fo'n berthnasol. Wrth ddewis cyhoeddiad, rhaid i awduron nodi a chydymffurfio â pholisi REF ar y cyfnodau embargo mwyaf a, phan fo'n bosibl, ddefnyddio datganiad cadw hawliau i ganiatáu Mynediad Agored ar unwaith ac atal yr angen am unrhyw embargo.

I gynyddu capasiti staff, rhoddir blaenoriaeth i gyflwyniadau cyfredol y gadwrfa a ysgrifennwyd yn ystod cyfnod yr ymchwilwyr yn y Brifysgol. Er yr ystyrir cyhoeddiadau a ysgrifennwyd gan ymchwilwyr presennol PCYDDS yn ystod eu cyflogaeth neu eu hastudiaethau mewn sefydliadau eraill, ni all LlAD warantu y trefnir bod y rhain ar gael, yn enwedig os ydyn nhw eisoes wedi'u cyhoeddi drwy Fynediad Agored yn rhywle arall.

Mae cyflwyniadau i'r Gadwrfa Ymchwil yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol yn unol ag egwyddorion Mynediad Agored ac ni chânt eu symud ond yn unol â Pholisi Dileu Deunydd y Brifysgol. Ni ddilëir gweithiau a gyflwynwyd pan fydd yr ymchwilydd yn gadael y Brifysgol.

### 4.4 Erthyglau ymchwil

Mae gan y Brifysgol gyfnod o 3 mis i drefnu bod erthyglau ymchwil ar gael ar ôl iddyn nhw gael eu derbyn, sy'n cynnwys yr amser a gymerir i weinyddwyr y gadwrfa brosesu'r erthygl a adneuir. O'r herwydd, rhaid cyflwyno erthyglau a adneuir i'r gadwrfa o leiaf 14 diwrnod cyn diwedd y cyfnod derbyn o 3 mis.

Mae'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn defnyddio gwasanaeth monitro i gasglu manylion erthyglau newydd a ysgrifennwyd gan ymchwilwyr y Brifysgol. Gall staff y LlAD gysylltu ag awduron am ragor o fanylion pan ddarganfyddir erthyglau nad ydyn nhw eisoes wedi'u cyflwyno i'r gadwrfa. Cyfrifoldeb yr awduron yw ymateb i'r ceisiadau hyn mewn da bryd.

### 4.5 Penodau llyfr, monograffau a chasgliadau golygedig

O dan bolisi UKRI rhaid trefnu bod monograffau, penodau llyfr a chasgliadau golygedig ar ffurf Mynediad Agored ymhen 12 mis ar ôl cyhoeddi o fis Ionawr 2024 ymlaen[2]. I sicrhau cydymffurfio a bodloni gofynion yr asesiad REF nesaf, mae'r Drindod Dewi Sant yn gofyn bod monograffau, penodau llyfrau a chasgliadau golygedig a ysgrifennwyd gan ymchwilwyr y Brifysgol i'w cyflwyno i'r Gadwrfa Ymchwil o 1 Medi 2023 ymlaen. Bydd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn gosod embargo priodol ar unrhyw gyflwyniadau i sicrhau cydymffurfio â pholisïau cyhoeddwyr.

### 4.6 Data ymchwil

Mae data ymchwil agored yn caniatáu mwy o dryloywder, atgynyrchioldeb a chydweithredu. Dylid adneuo data ymchwil mewn cadwrfa ddata bynciol briodol i ddechrau. Pan nad yw hyn yn bosibl, gellir adneuo data yn y Gadwrfa Ymchwil. Mae rhagor o arweiniad ar gael ym Mholisi Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol.

### 4.7 Trwyddedau

Dylid defnyddio trwydded Creative Commons gyda phob cyflwyniad i helpu i gadw hawliau a galluogi ei ailddefnyddio. Fel mater o drefn, defnyddir trwydded CC-BY, sy'n caniatáu rhagor o rannu ac addasu ar y gwaith ac fe'i mynnir gan y rhan fwyaf o gyllidwyr. Pan na fydd ymchwil wedi'i gyllido'n allanol, gall ymchwilwyr bennu trwydded Creative Commons arall i fodloni unrhyw ofynion masnachol neu gontractiol wrth ei adneuo; ceir cyfarwyddyd pellach yn https://creativecommons.org/about/cclicenses/

### 4.8 Cadw Hawliau

Mae Cadw Hawliau yn fenter dan arweiniad cyllidwyr i alluogi ymchwilwyr i gyhoeddi mewn cyfnodolion tanysgrifio a chadw eu hawl i hunan-adneuo eu llawysgrif mewn cadwrfa Mynediad Agored heb embargo. I hwyluso hyn, dylid ychwanegu datganiad cadw hawliau at y llawysgrif wrth ei chyflwyno:

[2] Making your monograph, book chapter or edited collection open access – UKRI

“At ddiben Mynediad Agored, mae’r awdur wedi cymhwyso Trwydded Briodoli Creative Commons (CC-BY) i unrhyw fersiwn Llawysgrif Awdur a Dderbyniwyd sy’n deillio o’r cyflwyniad hwn.”

Mae cOAlition S wedi trefnu bod templedi llythyrau eglurhaol ar gael i awduron sy’n dymuno ceisio eglurder gan gyhoeddwyr ar gadw hawliau cyn adolygiad gan gymheiriaid.

### 4.9 Traethodau Ymchwil a Thraethodau Hir

Mae’r Brifysgol yn gofyn bod yr holl draethodau graddau ymchwil llwyddiannus yn cael eu hadneuo yn y Gadwrfa Ymchwil, ynghyd â thraethodau hir Meistr sydd wedi cael dyfarniad rhagorol, neu fel arall sydd wedi cael gradd llwyddo ac wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg neu yn nisgyblaethau academaidd y Gymraeg, Astudiaethau Celtaidd neu Hanes Cymru.

Fel mater o drefn rhoddir trwydded CC BY-NC-ND i draethodau ymchwil. Gall myfyrwyr ddewis trwydded Creative Commons wahanol wrth adneuo’r gwaith os oes angen. Caiff myfyrwyr ymchwil sy’n dymuno cyhoeddi eu gwaith wneud cais am waharddiad mynediad a roddir gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Ni fydd cymedrolwyr y Gadwrfa yn gosod embargo ond pan gadarnheir bod hyn wedi’i roi.

## 5. Monitro

Adolygir y polisi bob tair blynedd mewn cysylltiad â staff academaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd parhaus.

## 6. Arweiniad a chymorth

Mae’r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn cynnig ystod gynhwysfawr o ganllawiau Mynediad Agored a chymorth i ymchwilwyr ar-lein:
Canllawiau Mynediad Agored: Cyhoeddi Mynediad Agored (uwtsd.ac.uk)
Academaidd a Sgiliau Gwybodaeth: https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/infoskills/

Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â: openaccess@uwtsd.ac.uk

### 6.1 Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Cyfnodolyn hybrid | Cyfnodolyn tanysgrifio lle mae rhai erthyglau â mynediad agored ac y mae rhai y tu ôl i wal dalu. Fel arfer mae erthyglau mynediad agored mewn cyfnodolion hybrid yn amodol ar Daliad Prosesu Erthyglau (APC) a delir gan yr awdur neu ei sefydliad/corff cyllido. |

| | |
|---|---|
| Embargo | Yng nghyd-destun Mynediad Agored, embargo yw pan fydd testun llawn gwaith mewn cadwrfa yn cael ei gyfyngu rhag sylw'r cyhoedd am gyfnod penodol ar ôl ei adneuo. Y cyhoeddwr sy'n diffinio cyfnod yr embargo. |
| Mynediad Agored Gwyrdd | Gwaith a gyhoeddwyd mewn llyfr neu gyfnodolyn tanysgrifio traddodiadol y tu ôl i wal dalu, pan fo copi i'w ddarllen yn rhad ac am ddim ar gael mewn cadwrfa ar wahân. Y Llawysgrif Awdur a Dderbyniwyd derfynol fel arfer yw'r copi yn y gadwrfa ac nid copi teiposod y cyhoeddwr. |
| Mynediad Agored Aur | Gwaith a gyhoeddwyd â mynediad agored yn ei darddle ac mae copi i'w ddarllen yn rhad ac am ddim ar gael trwy'r cyhoeddwr, gyda thrwydded y gellir ei dynodi'n glir (e.e. trwydded Creative Commons). Fel arfer mae erthyglau'n amodol ar Daliad Prosesu Erthyglau (APC) a delir gan yr awdur neu ei sefydliad/corff cyllido. |
| Metadata | Data sy'n disgrifio ac sy'n rhoi gwybodaeth am ddata eraill. Yng nghyd-destun y Gadwrfa, metadata yw'r wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei adneuo, megis y teitl, yr awdur, ISSN / ISBN, cyhoeddwr, crynodeb ac ati |
| Cytundeb darllen a chyhoeddi | Cytundeb â chyhoeddwr sy'n talu am gostau tanysgrifio traddodiadol ar gyfer cynnwys tu ôl i wal dalu, a chostau cyhoeddi mynediad agored. |

## 7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

- Polisi Mynediad Agored UKRI
- Strategaeth Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu PCYDDS
- Strategaeth Ymchwil ac Arloesi PCYDDS
- Polisi Hawlfraint PCYDDS
- Polisi Eiddo Deallusol PCYDDS
- Polisi Dileu Deunydd Cadwrfa PCYDDS

## Awdur(on) y polisi:

John Dalling, Pennaeth Casgliadau

Alison Harding, Pennaeth Gweithredol y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

## Rheoli fersiynau dogfennau

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| Drafft F0.5 | Wedi'i ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad polisi, a rhestr dermau wedi'i ychwanegu | JD | 19/05/2023 |
| Drafft F0.6 | Wedi'i ddiwygio i gynnwys adborth y Pwyllgor Ymchwil: penawdau wedi'u hychwanegu ar gyfer Data Ymchwil a Phenodau llyfr, monograffau a chasgliadau golygedig gyda gwybodaeth am bolisi UKRI. | JD | 12/07/2023 |
| Drafft F0.7 | Wedi ychwanegu cyfeiriad at REF2028 / dolen at Gadw Hawliau dan drwyddedau | JD | 18/07/2023 |

Statws presennol y Polisi: Cymeradwywyd

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AU

Dyddiad ei gadarnhau: 13 / Rhagfyr / 2023

Dyddiad y daw i rym: 13 / Rhagfyr / 2023

Dyddiad adolygu'r polisi: 1 / Ionawr / 2026

I'w gyhoeddi: Gwefan PCYDDS / MyDay / gwefan LlAD

*Cymeradwyaeth*

*Caiff y polisi ei ystyried yn ffurfiol a'i gymeradwyo'n unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghori â'r JCC. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â'r JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid cynnwys y canlynol gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad Effaith Sefydliadol
- Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data

*Cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio'n cwblhau'r adran isod:*

***I'w gwblhau gan ysgrifennydd y pwyllgor***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*

*Mae Asesiad o'r Effaith Sefydliadol wedi'i gwblhau* ☐

*Mae Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau* ☐

*Mae Asesiad o'r effaith ar breifatrwydd wedi'i gwblhau* ☐

*Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:*